**Cofnodion wedi'u cadarnhau o**
**Gyfarfod Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru**
**a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar**
**Ddydd Mawrth 17 Mawrth 2026 am 11:45yb**
Trwy Microsoft Teams / Willowford wyneb yn wyneb

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau:** | | |
| Ian Green (Cadeirydd) | (IG) | Cadeirydd Annibynnol, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Susan Elsmore | (SE) | Aelod Lleyg, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Abigail Harris | (AH) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Shameem Nawaz | (SN) | Aelod Lleyg, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Nicola Prygodzicz | (NP) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Carol Shillabeer | (CS) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Hayley Thomas | (HT) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Paul Worthington | (PW) | Aelod Lleyg, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Nia Roberts | (NR) | Aelod Lleyg, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| **Dirprwyon:** | | |
| Lee Davies | (LD) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Catherine Phillips | (CP) | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Claire Thompson | (CT) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **Aelod Cyswllt:** | | |
| Huw George | (HG) | Prif Gomisiynydd Dros Dro, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Carole Bell | (CB) | Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (Ar gyfer Eitem 3.3 yn unig) |
| Alex Crawford | (AC) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio Corfforaethol a Swyddfa Rheoli Prosiectau, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Iolo Doull | (ID) | Cyfarwyddwr Meddygol, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Aaron Fowler | (AF) | Ysgrifennydd y Pwyllgor a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Sue O'Leary | (SO) | Cyfarwyddwr Comisiynu Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Stacey Taylor | (ST) | Dirprwy Brif Gomisiynydd a Chyfarwyddwr Cyllid a Gwerth, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Melanie Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| **Arsylwyr:** | | |
| Angela Mutlow | (AM) | Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Llais |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Paul Mears | (PM) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Suzanne Rankin | (SR) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |

| | | |
|---|---|---|
| Philip Kloer | (PK) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Georgina Galletly | (GG) | Cyfarwyddwr Cynllunio a Strategaeth Gorfforaethol, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | **1. Materion Rhagarweiniol** |
| JCC25/132 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawyd yr Aelodau, y pwyllgorwyr eraill a'r arsylwyr gan y Cadeirydd i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu, a gynhaliwyd yn gyhoeddus, a gwnaed y cyflwyniadau. Cyflwynwyd SO, y Cyfarwyddwr Comisiynu newydd ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r cyfarfod gael ei recordio, a bydd y recordiad ar gael ar wefan Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC) yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni. |
| JCC25/133 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel yr uchod. |
| JCC25/134 | **Datganiadau o Fuddiant**<br>Datganodd AH fuddiant mewn perthynas ag eitem 4.2 (Dull o gomisiynu gwasanaethau hosbisau yng Nghymru), gan mai nhw yw Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol dros Ofal Lliniarol a Diwedd Oes. |
| JCC25/135 | **Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026 a Materion sy'n Codi**<br>Cafodd cofnodion cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Comisiynu a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026 eu derbyn a'u **cymeradwyo** fel cofnodion cywir o'r cyfarfodydd. |
| JCC25/136 | **Cofnod o'r Camau Gweithredu**<br>Cydnabu'r aelodau'r camau a gaewyd a'r un cam gweithredu heb ei gyflawni sydd i'w ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2026 wrth ymgorffori diweddariadau am adrodd am berfformiad o fewn Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor. |
| | **2. Cyflwyno'r Cefndir** |
| JCC25/137 | **Adroddiad y Cadeirydd**<br>Cafodd Adroddiad y Cadeirydd ei dderbyn fel y'i cyflwynwyd.<br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad. |
| JCC25/138 | **Adroddiad y Prif Gomisiynydd**<br>Derbyniwyd Adroddiad y Prif Gomisiynydd. Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Byddai CBCGC yn mynd i sesiwn graffu Llywodraeth Cymru ar 19 Mawrth 2026.<br>• Rhannwyd Cynllun Tymor Canolig Integredig drafft gyda chydweithwyr ar 16 Mawrth 2026. Mae'n parhau i gael ei ddiweddaru, a'r bwriad yw ei gylchredeg ar 18 Mawrth 2026 a sicrhau cymeradwyaeth yng nghyfarfod cyhoeddus Eithriadol CBCGC ar 23 Mawrth 2026.<br>• Roedd yr IMTP yn cynnwys rhagdybiaethau ariannol y cytunwyd arnynt eisoes, gan gynnwys cynnydd llawn o 1.1% i ddarparwyr a rhaglen gwella costau (CIP) ofynnol o 2%.<br>• Gwnaed gwaith recriwtio ar gyfer CBCGC, ac roedd y sefydliad yn nesáu at gael ei sefydlu'n llawn.<br>• Roedd Rhaglenni Gwaith Cymru Gyfan yn parhau yn ôl y disgwyl. Nododd HG y byddai angen cymorth comisiynu lleol ar holl Wasanaethau Cymru hefyd, a byddai CBCGC yn ei arwain i sicrhau cysondeb dull. |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Dylai Byrddau Iechyd barhau i gael gwybod am Straen Trawmatig Cymru (TSW) ar ôl y newid o ran trefniadau cynnal a'i integreiddio i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd disgwyl y byddai Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt CBCGC – Iechyd y Cyhoedd yn darparu cymorth yn y maes hwn ar ôl ei benodi.<br>• Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am y datblygiad o ran recriwtio, ond roeddent yn parhau i bryderu am y llwyth gwaith ac am reoli'r agenda sefydliadol, gyda Rhaglenni Cymru gyfan ychwanegol yn cael eu cyflwyno.<br>• Dywedodd yr aelodau bod angen am ysgogiad newydd o ran rheoli atgyfeiriadau, a chyfeiriwyd at y cytundebau blaenorol ac at arwyddocâd ymgysylltu ar draws CBCGC, Byrddau Iechyd a rhwydweithiau clinigol.<br>• Tynnodd ST sylw at yr holl elfennau gwahanol sy'n rhan o reoli atgyfeiriadau, yr angen am gefnogaeth y byrddau iechyd, a'r gwaith parhaus i sefydlu cysylltiadau effeithiol. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran Rheoli Atgyfeiriadau yn cael ei rhannu yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor a'r Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol (CCLG) ym mis Ebrill.<br>• Trafododd y pwyllgor ymateb CBCGC i'r adolygiad mamolaeth a newyddenedigol. Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn cynnwys dau brif argymhelliad a goblygiadau ehangach ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd, a byddant yn cael eu trafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSOC) Ebrill 2026. Y bwriad oedd integreiddio'r gwaith hwn mewn cynlluniau ehangach, ond yn fras roedd dau faes ar wahân ar gyfer y CBCGC – ad-drefnu cotiau a thrafnidiaeth newyddenedigol.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad. |
| JCC25/139 | **Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau gan Is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor**<br>Cafwyd yr Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau gan Is-bwyllgorau CBCGC:<br><br>**Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSOC) (23.02.2026)**<br>• Dywedodd MR bod anghysondeb o ran presenoldeb Byrddau Iechyd yng nghyfarfodydd y Panel Ceisiadau Cyllid Cleifion Unigol (IPFR) wedi arwain at fwy o Gamau Gweithredu i'r Cadeirydd, a hyn wedi effeithio ar sut y gwnaethpwyd penderfyniadau. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw gwella cyfranogiad y Byrddau Iechyd, ac ysgrifennwyd llythyrau at Brif Swyddogion Gweithredol am hyn. Roedd dau gyfarfod Panel ychwanegol wedi'u canslo ers cyfarfod diwethaf yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau. Byddai Prif Swyddogion Gweithredol yn cael gwybodaeth all-lein am bresenoldeb Byrddau Iechyd mewn cyfarfodydd, gan gydnabod y byddai hyn yn gymorth i gael cworymau ac yn sicrhau bod Byrddau Iechyd yn cael y newyddion diweddaraf am benderfyniadau.<br>• Tynnodd MR sylw hefyd at amrywiadau o ran llwybrau sganio CT, sy'n effeithio ar amseroedd triniaeth cleifion, a'r angen am eglurder o ran mynediad at ddata a gofynion adnoddau ar gyfer gwasanaethau thrombectomi i gefnogi gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau i Gymru gyfan.<br><br>**Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (PPF) (26.02.2026)**<br>• Cafodd Adroddiad Uchafbwyntiau'r PPF ei dderbyn fel y'i cyflwynwyd, a chadarnhaodd PW bod yr Is-bwyllgor wedi cael cyfle i adolygu sefyllfa ariannol a pherfformiad CBCGC, ac y byddai'n ceisio cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni gwaith ac yn eu cyfnodau cynnar yn y dyfodol. |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | **Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) Lletyol**<br>• Nodwyd Adroddiad Uchafbwyntiau ARAC, a dywedwyd bod CBCGC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) yn parhau i gydweithio i sicrhau bod sicrwydd priodol yn cael ei gynnig i BIPCTM, sef corff lletyol CBCGC.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi** cynnwys yr adroddiadau a chael **sicrwydd** bod adolygu a chraffu priodol yn digwydd ar y materion a adroddwyd. |
| JCC25/140 | **Cofrestr Risgiau Cyd-bwyllgor GIG Cymru – Ionawr 2026**<br>Cyflwynwyd Cofrestr Risgiau Gweithredol ("CRG") CBCGC (risgiau â sgôr o 15 ac uwch) fel ag yr oedd ar 31 Ionawr 2026. Roedd gan 14 o risgiau'r CRG sgôr o 15 ac uwch (risgiau eithafol). Roedd y rhain yn cynnwys:<br>• 12 risg comisiynu a 2 risg sefydliadol.<br>• Roedd 7 risg ar draws y sefydliad wedi'u lleihau a/neu eu cau.<br><br>Nododd yr aelodau bod gostyngiad yn nifer y risgiau a adroddwyd. Priodolwyd y gwelliant yma i ymarfer ail-seilio cynhwysfawr a gwell disgrifiadau o risgiau. Cydnabuwyd nad oedd ail-seilio prosesau risg yn adlewyrchu gostyngiad cyffredinol yn y risgiau oedd gan CBCGC.<br><br>Cadarnhawyd y byddai Fframwaith Sicrwydd i'r Cyd-bwyllgor, Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg wedi'i ddiweddaru a Gweithdrefn Rheoli Risg ddiwygiedig (sy'n cyd-fynd â pholisi BIPCTM) yn cael eu rhannu yng nghyfarfod y cyd-bwyllgor ym mis Gorffennaf.<br><br>Cafwyd diweddariad ar y risg uwch o ran Gwasanaethau Llawfeddygaeth Gordewdra. Nododd yr Aelodau fod trefniant interim ar waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) i roi mynediad at wasanaethau gordewdra i gleifion sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, ac roedd ymdrechion yn parhau i ddod o hyd i ddarparwr arall ar ôl cael hysbysiad i derfynu contract Ysbyty Brenhinol Salford.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad,<br>• **Nodi'r** gwaith a wnaed i wella'r CRG, a<br>• **Chymeradwyo** Cofrestr Risgiau Sefydliadol CBCGC fel ag yr oedd ar 30 Tachwedd 2025. |
| JCC25/141 | **Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111**<br>Cyflwynwyd Adroddiad y Cyfarwyddwr. Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Diweddariad ar weithredu'r fframwaith perfformiad ambiwlans newydd a'r gwerthusiad annibynnol gan Brifysgolion Edge Hill ac Abertawe. Mae cynlluniau i gael mewnbwn gan y byrddau iechyd ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd i werthuso ac i werthusiadau interim i fonitro canlyniadau tymor byr a hirdymor.<br>• Bydd y gwerthusiad yn cwmpasu'r fframwaith perfformiad yn ogystal ag effaith ehangach y system, gyda chyfleoedd i gydweithwyr o'r byrddau iechyd gyfrannu at y fethodoleg trwy'r Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol neu grŵp comisiynu diwygiedig, gyda'r nod o ddatgloi data cysylltiedig a mynd i'r afael â rhwystrau deddfwriaethol. |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod gwerthusiadau interim wedi'u cynllunio trwy gydol y cyfnod o dair blynedd, gyda phecyn metrigau cynhwysfawr yn cael ei adolygu i sicrhau bod cynhyrchiant a chanlyniadau clinigol yn cael eu monitro, a bydd addasiadau i'r gwerthusiad yn cael eu gwneud yn ôl yr angen.<br>• Gofynnodd yr aelodau am y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud ar y Gwasanaethau Trosglwyddo Cleifion nad ydynt yn Achosion Brys. Rhannodd RW yr wybodaeth ddiweddaraf, a chadarnhaodd fod gwaith yn cael ei wneud i wella prosesau rhyddhau a throsglwyddo, rhannu data modelu gyda grwpiau perthnasol, a sicrhau bod gweithgareddau'r byrddau iechyd yn cyd-fynd â'i gilydd i fynd i'r afael â heriau mewn gwasanaethau meddygol brys, moderneiddio gwasanaeth cleifion allanol, a chamau dilynol a godwyd gan gleifion.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad gan gymryd sicrwydd o ddiweddariadau a gafwyd mewn perthynas â pharhau i ddarparu gwasanaethau Ambiwlans ac 111 a'u monitro'n barhaus. |
| JCC25/142 | **Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol**<br>Cyflwynwyd Adroddiad y Cyfarwyddwr. Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Roedd bwriad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) a BIPBA ymateb i asesiad ardystio Cyd-bwyllgor Achredu Cymdeithas BMT Ewrop (JACIE) ar gyfer gwasanaethau Trawsblannu Gwaed a Mêr (BMT) a CAR-T erbyn mis Gorffennaf 2026 er mwyn cadw'r achrediad. O safbwynt comisiynu, roedd angen rhoi sicrwydd am y gofynion refeniw i fodloni disgwyliadau ardystio. Bydd adolygiad o'r cyllid a ryddhawyd yn flaenorol ynghylch staffio CIPBA yn cael ei gynnal. Bydd achos busnes hefyd yn cael ei brosesu trwy brosesau llywodraethu CBCGC er mwyn darparu sicrwydd ynghylch y costau refeniw gofynnol sy'n gysylltiedig â'r cyfleuster cynhyrchu. Mae hyn yn golygu mynd trwy'r Grŵp Gwasanaethau Arbenigol i ddechrau ac yna trwy'r Grŵp Arwain Comisiynu Cydweithredol. Mae'r cyllid ar gyfer CAR-T yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Yr angen i gynlluniau cyfalaf gael eu cymeradwyo erbyn Gorffennaf 2026 mewn cysylltiad â JACIE/CAR-T, gan beri i aelodau gwestiynu a oedd y dyddiad cau hwn yn realistig. Cydnabuwyd bod BIPCF yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i gwrdd â'r amserlen hon ac y gellid ceisio penderfyniad cyfalaf brys pe bai angen. Mae hyn yn parhau i fod yn risg sylweddol sydd yn y gofrestr risg sefydliadol (Risg 80), ac wrth i'r sefyllfa gyfalaf esblygu, bydd angen adolygu parhaus.<br>• Roedd amseroedd aros ar gyfer llawfeddygaeth blastig yn Ne Cymru wedi gwella'n sylweddol, a BIPBA wedi trin pob claf a oedd wedi aros dros 104 wythnos erbyn mis Mawrth 2026. Cydnabuwyd yr angen am gomisiynu'r gwasanaeth hwn yn briodol.<br>• Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am yr estyniad i gyfnod ymgynghori'r Ysgogiad Ymennydd Dwfn (DBS), ond byddai angen i unrhyw newid i'r llwybrau gydymffurfio â chanllawiau newid gwasanaeth.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** diweddariadau comisiynu arbenigol a rannwyd<br>• **Nodi'r** crynodeb o'r risgiau arbenigol a ddisgrifiwyd, gan gydnabod bod risgiau o'r fath yn parhau i gael eu rheoli gyda gwasanaethau wedi'u huwch-gyfeirio yn cael eu hadrodd i Is-bwyllgor QSO CBCGC er mwyn gallu craffu'n fanwl arnynt. |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | |
| JCC25/143 | **Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed (MHLDVG)**<br>Cyflwynwyd Adroddiad y Cyfarwyddwr. Nododd yr aelodau’r canlynol:<br>• Roedd NHS England wedi penderfynu roi'r gorau i gomisiynu gwelyau gan St Andrew's Healthcare. Roedd lleoliadau’n cael eu rheoli'n fanwl, ac roedd cyfarfodydd gorchymyn arian ac aur yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd. Roedd 11 o gleifion o Gymru mewn gwelyau yn St Andrews, ar hyn o bryd. Roedd CBCGC yn cydlynu’r broses o gysylltu â darparwyr amgen a byrddau iechyd ledled Cymru. Roedd cyfathrebu rheolaidd rhwng CBCGC a NHS England i reoli’r gwaith o symud cleifion o St Andrews at ddarparwyr amgen. Roedd rhaglen waith yn cael ei chynnal i gael sicrwydd parhaus, er nad oedd unrhyw bryderon penodol mewn perthynas â'r 11 o gleifion o Gymru ar adeg yr adroddiad.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Yr adolygiad arfaethedig o ofal cleifion mewnol ag anhwylderau bwyta, a gomisiynwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. Nodwyd y bu ychydig o oedi oherwydd capasiti, ond pwysleisiwyd yr angen i gydlynu ar draws y system gyfan, a’r cyfarfodydd sydd ar ddod gyda Llywodraeth Cymru ac arweinwyr y gwasanaethau i gefnogi hyn. Mae'r Coleg Brenhinol yn diffinio cwmpas yr adolygiad, ac mae ymdrechion i sicrhau bod ystyriaethau gofal cleifion mewnol a chymunedol yn cyd-fynd â materion system-gyfan.<br>• Rhoddwyd diweddariad am adolygiad Gwasanaeth Rhywedd Cymru. Roedd yn amlinellu'r dull dau gam a ddefnyddir sy'n cynnwys adolygiad comisiynu mewnol ac adolygiad allanol annibynnol. Byddai cleifion yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau hefyd a bydd adolygydd annibynnol arbenigol yn cael eu dewis yn ofalus. Bydd yr adolygiad mewnol yn dechrau yn Chwarter Un 2026/27, gan ganolbwyntio ar wasanaethau a data presennol, tra bo disgwyl i’r adolygiad allanol, sy'n dibynnu ar gyllid a chyfatebiaeth ag adolygiadau yn Lloegr, ddigwydd yn Chwarter Tri 2026/27.<br>• Nodwyd pwysigrwydd dewis adolygydd arbenigol credadwy. Byddai hyn yn ennyn hyder comisiynwyr, darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi’r** diweddariadau a rannwyd gyda'r Cyd-bwyllgor. |
| | **3. Cyflawni Cynllun CBCGC** |
| JCC25/144 | **Adroddiad Perfformiad Ariannol CBCGC – Mis 10 ac 11 2025–26**<br>Derbyniwyd Adroddiadau Perfformiad Ariannol Mis 10 ac 11. Nododd yr aelodau’r canlynol:<br>• Roedd y sefyllfa ym Mis 11 yn tynnu sylw at ragdybiaeth o £6.7 miliwn o orwariant, a oedd yn well nag yr oedd ar ddechrau’r flwyddyn, gyda'r holl risgiau a chyfleoedd hysbys wedi'u cynnwys. Roedd ymdrechion ar y gweill i sicrhau canlyniad sefydlog ar ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Roedd y prif bethau oedd yn gyrru gorwariant yn cynnwys Contractau Cleifion Unigol cyffredinol (gan gynnwys IPFR), darparwyr lleol, a meysydd penodol megis imiwnoleg a gwasanaethau arennol. Cynlluniwyd astudiaethau manwl o’r meysydd hyn i reoli risgiau yn well ac i lywio cynlluniau’r dyfodol o fewn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026/27.<br>• Yr angen am well rhagolygon ac i adnabod risgiau yn gynnar, gyda chynlluniau i addasu prosesau adrodd a chamau gweithredu o fis Ebrill 2026 i osgoi |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | gorwariant annisgwyl ac i sicrhau sefyllfa ariannol fwy cadarn wrth symud ymlaen.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** sefyllfa ariannol ar ddiwedd y mis. |
| JCC25/145 | **Adroddiad Perfformiad CBCGC**<br>Derbyniwyd Adroddiad Perfformiad CBCGC ar gyfer Mis 10. Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Gwelliannau parhaus i'r adroddiad ar berfformiad, effaith dangosyddion perfformiad newydd ar gyfer darparwyr Cymru, a'r angen am ddata clir, amserol ac adroddiadau cryno i gefnogi goruchwyliaeth o bwyllgorau ac asesu risg. Cafodd yr adroddiad ei gynnwys yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor PPF ym mis Chwefror.<br>• Bydd metrigau perfformiad allweddol newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael effaith sylweddol ar ddarparwyr Cymru, ac mae gwaith modelu yn cael ei wneud i asesu goblygiadau ac i sicrhau dealltwriaeth o risgiau, a byddai hyn yn cael ei fwydo'n ôl i'r Cyd-bwyllgor.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Roedd yr Adroddiad Perfformiad yn fwy cryno ac o ganlyniad yn haws i'w ddarllen.<br>• Byddai'r adroddiad yn parhau i gael ei adolygu er mwyn gwneud gwelliannau, gan gynnwys y potensial ar gyfer crynodeb un dudalen sy'n tynnu sylw at lwyddiannau, heriau a risgiau allweddol. Byddai hyn yn gwella hygyrchedd ac yn canolbwyntio'r sylw ar faterion critigol.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad. |
| JCC25/146 | **Diweddariad Cynllun Sylfaen CBCGC – Chwarter 3**<br>Derbyniwyd diweddariad Cynllun Sylfaen C3 CBCGC. Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Er bod y rhan fwyaf o flaenoriaethau yn symud ymlaen yn ôl y bwriad, bu oedi mewn rhai meysydd oherwydd cyfyngiadau capasiti a dibyniaeth ar sefydliadau allanol.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Roedd Dogfen Gychwynnol y Prosiect Adolygiad Cardiaidd (PID) wedi'i chymeradwyo.<br>• Byddai blaenoriaethu (ar gyfer 2026/27) yn cael ei ymgorffori yng Nghynllun Blynyddol 2026/27.<br>• Y cynlluniau ar waith i gryfhau asesiadau o'r hyder yn y cyflawni ac i wella'r gallu i adnabod risgiau yn gynnar mewn adroddiadau sydd i ddod.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad fel adroddiad o'r sefyllfa yn erbyn cyflwyno Cynllun Sylfaen CBCGC o Chwarter 3<br>• Nodi statws gweithredu'r rhaglenni strategol a chydnabod y bydd Grwpiau Comisiynu Cydweithredol CBCGC yn monitro trefniadau ar gyfer unrhyw amrywiad yn erbyn y llinellau sylfaen y cytunwyd arnyn nhw.<br>• **Cydnabod** bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid gael craffu arno yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2026. |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | **5. Llywodraethu, Sicrwydd a Phenderfyniadau** |
| JCC25/147 | **Argymhelliad 4: Opsiynau Ymateb Gwledig**<br>Cafwyd Adroddiad Argymhelliad 4: Opsiynau Ymateb Gwledig. Rhoddodd RW drosolwg o drafodaethau blaenorol mewn perthynas ag Argymhelliad 4 a oedd yn anelu at gomisiynu gwell gwasanaethau ambiwlans ar y ffyrdd mewn ardaloedd gwledig. Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Yr amserlen gynharaf a ragwelir ar gyfer sefydlu sylfaen gyfunol oedd chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2027/2028.<br>• Amlinellodd RW y tri opsiwn i'w hystyried gan aelodau:<br>  ○ Rhoi'r gorau i'w ddatblygu.<br>  ○ Gweithredu'r model dau gar a gefnogwyd yn flaenorol.<br>  ○ Ymgysylltu â'r cyhoedd a'r darparwyr eto i ailymweld â'r bwriadau comisiynu, ac o bosibl eu hadolygu, o ystyried y ffenestr gynllunio estynedig cyn i'r sylfaen gyfunol ddod yn weithredol.<br><br>Opsiwn 3 oedd yr opsiwn a ffefrir yn yr adroddiad.<br>• Nodwyd bod RW ac IG wedi cwrdd ag aelod o'r Senedd ac aelodau o'r cyhoedd i drafod yr opsiynau. Roedd aelodau o'r cyhoedd wedi cadarnhau y byddent yn hoffi bod yn rhan o drafodaeth bellach, os mai parhau ag Opsiwn 3 fyddai'r dewis. Cadarnhaodd AC y byddai Llais hefyd yn hoffi cymryd rhan, ac awgrymodd raglen ymgysylltu 12 wythnos fan leiaf, gydag ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cydnabuwyd y gellid gofyn i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) arwain y gwaith ymgysylltu. Roedd y rhai yn y cyfarfod yn cefnogi'r galw am ymgysylltiad ystyrlon a pharhaus â chymunedau gwledig y tu hwnt i'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn flaenorol.<br>• Ceisiodd yr aelodau eglurhad ar y model cyflawni, yr amserlen weithredu, a'r prosesau angenrheidiol i sicrhau cyflawniad amserol, gan nodi bod hyn yn hanfodol pe cytunir mai Opsiwn 3 yw'r argymhelliad a ffefrir.<br>• Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd deall sut y byddai Argymhelliad 4 yn bodloni anghenion cymunedau gwledig. Byddai'r manylion hyn yn cael eu cynnwys mewn diweddariadau i'r Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.<br>• Disgwyliwyd adroddiad gan WAST ynghylch perfformiad mewn ardaloedd gwledig a fydd yn ffurfio llinell sylfaen ar gyfer deall anghenion y boblogaeth yn y dyfodol.<br>• Bydd y gwaith yn cael ei gynnwys yn strwythurau cynllunio'r sefydliad a byddai'n ymddangos mewn trafodaethau blaenoriaethu a gwaith datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig nesaf.<br>• Byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu yn Adroddiadau'r Cyfarwyddwr Comisiynu (Gwasanaethau Ambiwlans a 111) a rennir gyda'r Cyd-bwyllgor.<br><br>**Cam Gweithredu: Adroddiad wedi'i ddiweddaru sy'n cynnwys cynnig i'w drefnu ar gyfer cyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Tachwedd.**<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Drafod** cynnwys yr adroddiad.<br>• **Cymeradwyo** Opsiwn 3. |
| JCC25/148 | **Dull o Gomisiynu Gwasanaethau Hosbisau yng Nghymru**<br>Cafodd yr aelodau adroddiad a grëwyd ar y cyd ar ddull comisiynu ar gyfer gwasanaethau hosbis yng Nghymru, a ddatblygwyd gyda byrddau iechyd a'r sector hosbisau. Nod yr adroddiad oedd sefydlu llinell sylfaen gyson ac i ystyried modelau comisiynu cenedlaethol, lleol neu ranbarthol. Mae'r adroddiad yn nodi |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | opsiynau i'w hystyried yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ynghylch ble dylai comisiynu ddigwydd: yn genedlaethol, yn lleol neu'n rhanbarthol. Roedd aelodau'r pwyllgor yn cydnabod cymhlethdod y sector hosbisau, y clytwaith o ddarparwyr, a mor anodd yw rhagweld incwm gwirfoddol, a thynnwyd sylw at gyfrifoldeb CBCGC i fod yn arweinydd system a chynullydd.<br><br>Gofynnodd y pwyllgor i ddogfennau yn y dyfodol gynnwys manylion am gyfranogiad rhanddeiliaid, gan sicrhau tryloywder ac ymgysylltiad eang yn y broses gomisiynu.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Gefnogi** dull comisiynu arfaethedig y Fframwaith Hosbis. |
| JCC25/149 | **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol**<br>Derbyniwyd yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Rhagolwg o gynlluniau cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.<br>• Mae arolygon effeithiolrwydd yr Is-bwyllgor wedi cael eu rhannu, ac anogwyd y rhai a oedd yn bresennol i ymgysylltu ynddynt.<br>• Bydd aelodau lleyg yn cael gwybod am gyfarfodydd gwerthuso a gosod amcanion.<br>• Ar ôl penodi Prif Gomisiynydd, gellir gweithredu proses adolygu effeithiolrwydd ddiwygiedig yn ystod 2026/27, gyda chefnogaeth darparwr allanol.<br>• Bydd y Cadeirydd a'r Prif Gomisiynydd yn cysylltu â chydweithwyr yn y bwrdd iechyd i'w gwahodd i gyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer diweddariadau blynyddol dros y misoedd nesaf.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi**'r adroddiad a'r diweddariadau a rannwyd, gan gydnabod y sicrwydd a ddarperir gan Adroddiadau Blynyddol QSOC a PPF<br>• **Cefnogi:**<br>  ○ Cylch Gorchwyl QSOC a PPF ac argymell pob un i'r Bwrdd Iechyd i'w gymeradwyo.<br>• **Cymeradwyo:**<br>  ○ Cwestiynau Arolwg Effeithiolrwydd Blynyddol y Cyd-bwyllgor i'w cylchredeg i Aelodau'r Cyd-bwyllgor.<br>  ○ Blaengynlluniau QSOC a PPF.<br>  ○ Blaengynllun Busnes y Cyd-bwyllgor. |
| | **6. Er gwybodaeth** |
| JCC25/150 | Ni rannwyd unrhyw eitemau i'w hadolygu. |
| | **7. Busnes i Gloi** |
| JCC25/151 | **Unrhyw Fusnes Arall**<br>Ni thrafodwyd unrhyw fusnes ychwanegol. |
| JCC25/152 | **Adolygu'r Cyfarfod**<br>Roedd yr aelodau yn fodlon â'r eitemau a rannwyd a'r trafodaethau a gafwyd, gan gydnabod bod y cyfarfod wedi'i fyrhau er mwyn cynnal trafodaethau Mewn Pwyllgor. |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| JCC25/153 | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Mae cyfarfod eithriadol wedi'i drefnu ar gyfer 23 Mawrth 2026. Cafodd y cyfarfod arferol nesaf ei drefnu ar gyfer 26 Mai 2026. |